

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod rithiol 8 Rhagfyr 2020 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Cynog Prys	
Lliwen Griffith-Williams	Nerys John	
Iwan Huws	Emyr Gareth	
Cais Roberts	Dafydd Huws	
Llŷr Evans	Eifion Williams	
Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
	Agorwyd yn ffurfiol y cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Eiliw Williams ac Iestyn Harris.	
1.1	Cafwyd gwybod yn y cyfarfod am farwolaeth y Parchedig Lloyd Jones cyn Ficer y Plwyf. Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei gyfraniad i'r pentref ac yn nodi gwerthfawrogiad y Pentref o'r cyfraniad hwnnw. Cyfarfod i'w drefnu gyda Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanddaniel a Chadeirydd Iwan Huws i drafod Jet Skis yn lansio o Moel y Don.	CLERC
1.2	Cynllun Cyfaill – dim wedi newid.	
1.3	Cyfarfod Rhithio Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon - dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu'r cyfarfod lle'r oedd 30 - 40 o bobl wedi cofrestru i fod yn bresennol. Mae'r Fenai o flaen y pentref yn cael ei blismona gan yr ymddiriedolaeth ar gyfer cyfyngiad cyflyma o 5 knot o Rowen, pasio'r Marina hyd at Plas Menai. Cafwyd ar ddeall byddent yn patrolio mwy.	
1.4	Cydnabod aelodau o'r Gymuned - penderfynwyd byddai'r Cyngor Cymuned yn godi Banner i gofnodi Diolch at bawb o fewn y gymuned oedd wedi gweithio yn y cyfnod clo. Y Cynghorydd Nerys John i edrych am brisiau a'r Cynghorydd Cais Roberts i ddylunio'r faner.	
1.5	Japanese Knotweed - derbynwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn datgan nad oeddynt wedi derbyn cwyn bod y pla hwn wedi ymledu i erddi trigolion Stryd Bangor - Deallir bod perchnogion o'r Stryd hefyd wedi anfon at Gyngor Gwynedd. Y Clerc i anfon eto at Gyngor Gwynedd.	CLERC
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	Roedd y Cynghorydd Sir yn bresennol ar gyfer y cyfarfod ac yn cymryd rhan fel bo'r gofyn.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Cynghorydd Nerys John – Eitem 6.1	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Mai ychydig o wariant oedd wedi bod. Mae angen ail sgwennu sieciau ar gyfer y Guides a Clwb y Felin. Derbyniwyd gwariant ag Adroddiad ariannol mis Tachwedd fel rhai cywir.	
4.2	Cafwyd rhybudd bod angen ymdrin â'r precept ym mis Ionawr 2021 a bod angen derbyn ceisiadau ar gyfer cymorth ariannol erbyn diwedd mis Ionawr. Mae hyd at 6K ar gyfer	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	cymdeithasau. Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried ym mis Chwefror 2021.	
4.3	Adroddiad DBO ynglŷn â'r archwiliad allanol byth wedi ei dderbyn. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Unllais Cymru.	CLERC
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Hydref.	CLERC
5.2	Paentio'r Toiledau - y Cynghorydd Gareth Griffiths heb dderbyn ynglŷn â'r mater i ddyddiad. Byddai yn ail gysylltu â'r uned berthnasol.	GG
5.3	<p>Materion Priffyrdd- Ymateb wedi ei dderbyn gan y Swyddog Ian Morgan - gweler isod copi o'r e-bost.</p> <p><i>Cyfeiriaf at dy neges What's app diweddar ynglŷn â bin halen wedi torri a chyflwr arwyneb y ffordd yn Nhai Gwelfor.</i></p> <p>Bin halen. Mae'r arolygwr wedi codi diffyg ar gyfer y bin halen a bydd yn trefnu rhoi bin newydd yn ei le cyn gynted â phosib.</p> <p>Cyflwr arwyneb y ffordd ar Dai Gwelfor. Mae'r arolygwr ffyrdd wedi codi archeb ar gyfer llenwi'r tyllau yn y tymor byr. Hir dymor mae angen ail-wynebu'r lleoliad, ond bydd hyn ddim yn digwydd o dan amgylchiadau COVID. Rydym wedi gohirio'r rhaglen waith ail-wynebu trefol gan lithro'r cynlluniau drosodd i 2021.</p> <p><i>Cynlluniau gwledig sydd yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol yma er mwyn gwarchod iechyd a diogelwch y cyhoedd a'r gweithlu sydd yn cyflawni'r gwaith. Mae trefniadau yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i wynebu'r B4547 ar waelod Nant y Garth, rhan o Lon Penscoins ac o bosib rhan o'r hen A487 ger Cerrig yr Afon o fewn Cymuned Y Felinheli. Byddwn yn cysylltu gyda'r Cyngor yn agosach at yr amser i'ch hysbysu o'r dyddiadau cychwyn i'r cynlluniau uchod.</i></p>	
5.4	Bydd Y Cynghorydd Casi Roberts yn cysylltu â'r garddwr.	CR
5.5	Cae Chwarae – disgwyl dyddiad gweithredu rhoi'r offer Newydd yn ei le.	EW
5.6	Mae prosiect Lan y Môr bron wedi ei orffen. Mae gwlybanaeth ger y Garddion ar ôl i'r tir gael ei "compaction". Gofynnwyd I'r Clerc anfon at Gyngor Gwynedd I'w hysbysu o'r broblem yma.	CLERC
5.7	Mae Neuadd yr Eglwys yn edrych yn dda – Diolchi bawb am eu Gwaith. Dywedodd y Cynghorydd Sir bydd angen trefnu cyfarfod gyda'r Eglwys y Flwyddyn nesaf ar gyfer cael gwybod beth sydd yn digwydd ynglŷn â'r Neuadd yn sgil y cynlluniau roedd ganddynt.	
6.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
6.1	C20/0974/20/DT - Norland Tafarngrisiau, Y Felinheli LL56 4NZ- cais deiliad tŷ ar gyfer codi estyniad rhannol deulawr a rhannol unn llawr i gefn ac ochry r eiddo ynghyd ac ymestyn y teras llawr cyntaf. - DIM GWRTHWYNEBIAD	
7.0	PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU	
7.1	Nid yw Mainc ger Stepiâu Cei wedi ei wneud hyd yma ond mae a'r rhestr y contractwr i'w gwblhau.	DW

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

7.2	Cafwyd gwybodaeth bod Goleuadau Traffig wedi bod ar Ffordd y Marina. Dywedodd y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths mai ar gyferocio'r llwyni oedd y goleuadau a'u bod wedi mynd erbyn hyn. Mae angen dod o hyd i berchennog y wal gynnal ac mae Cyngor Gwynedd yn gweithio ar hyn. Dywedodd y byddai yn mynd ar ôl hyn.	GG
7.3	Mae gwaith clirio "gullies" wedi ei weithredu yn y pentref. Deallir nad oedd hyn wedi ei weithredu ers Mawrth 2019. Disgwylir i hyn gael ei wneud yn flynyddol. Roedd sawl un wedi cau oherwydd baw a cherrig. Mae yn bwysig bod hyn yn cael ei wneud yn flynyddol oherwydd problemau llifogydd sydd yn hanesyddol. Mae Swyddog Cyngor Gwynedd am sicrhau bod y gwaith yn cael ei weithredu yn flynyddol o hyn ymlaen.	
7.4	Trafodwyd y posibilrwydd o greu man parcio a'r ffordd ger Cae Peldroed Y Felinheli neu ddatblygu rhan o'r tir o fewn y Cae Peldroed fel safle parcio. Cafwyd gwybod bod rhan o'r ardal o fewn y Cae Chwarae am ei wneud fel ardal hyfforddiant ar gyfer y plant iau.	
8.0	LLWYBRAU A LON LAS	
8.1	Dywedodd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan yr adain Llwybrau Cyhoeddus a'u bod yn methu cael un rhithiol os nad oedd offer Microsoft teams yn cael ei ddefnyddio. Roedd paw bar yr is-bwyllgor yn barod i ddefnyddio'r offer yma. Gweler gohebiaeth yr adain isod: <i>Hi Heather.</i> <i>Wir ymddiheuro am oedi ymateb yn ôl dy gais.</i> <i>Ni wn os yr oeddet i yrru copi o'r adroddiad i mi ne ddim? Methu gweld un yn yr e-byst blaenorol.</i> <i>O ran cyfarfod yr unig ffordd all wneud cyfarfod bydd drwy Microsoft teams, hwn ydi'r unig gyswllt sydd gennyf ar gyfrifiadur. Oherwydd ni ydym yn gweithio o'r swyddfa ac na fod Siop Gwynedd ar agor, hyn ydi'r unig fodd sydd gennyf i greu cyfarfod.</i> <i>Rho ymwybod i mi os fydd hyn yn addas.</i>	CLERC
9.0	MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA	
9.1	Dim i'w adrodd	
10.0	PROSIECTAU	
10.1	Cafwyd Adroddiad bod prosiect Lan y Môr bod wedi ei gwblhau. Mae'r wal wedi ei gorffen a'r giatiau wedi eu gosod. Bydd gwair rhwng y wal a'r lan y môr yn cyrraedd diwedd wythnos. Mae ail wynebu'r ffordd yn araf. Mae toriad olaf i'r gwair angen ei wneud. Geraint Hughes o Gyngor Gwynedd am drefnu dyddiad. Cafwyd y llechen gyda'r englyn ei gosod ar y safle heddiw. Gan fod y cynllun a'r fin ei gwblhau mae bellach angen ystyried cynllun ar gyfer gweithredu'r giatiau. Ar hyn o bryd	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu proses dros dro i weithredu'r giatiau os bydd angen. Gobeithir trefnu cyfarfod gyda Cyfoeth naturiol Cymru ym mis Ionawr er mwyn rhoi cynllun mewn lle a fydd yng nghyfenwador Cynllun Gwydnwch Cymunedol.</p>	
10.2	<p>Rhoddodd y Cynghorydd Nerys John Adroddiad ar y cyfarfod oedd wedi ei drefnu gyda Gwynfor Hedd Roberts ynglŷn â'r tir rhwng y wal a'r Cae Chwarae. Gweler isod copi o e-bost gan y Cynghorydd yn cofnodi'r hyn a benderfynwyd:</p> <p><i>Bore da Gwynfor</i> <i>Diolch yn fawr am drefnu i fy nghyfarfod i ac un o drigolion Lan y Môr, Y Felinheli.</i> <i>Mae cynlluniau ar y gweill i'r trigolion ofalu am y darn tir rhwng ffens ddeheuol y cae chwarae a'r morglawdd cerrig.</i> <i>Er mwyn galluogi plannu yn yr ardal yma ddaru ni gytuno ar y canlynol:</i> <i>I glirio'r tir o rwbel ac i gael top soil o 6 modfedd ar y darn tir.</i> <i>I drefnu creu planters i gau i ffwrdd y ddau ben o'r darn tir. Buasai'r planters yma yn rhyw 2 droedfedd o uchder a heb waelod iddyn nhw.</i> <i>I adael y planters 'sleepers' presennol yn eu lle a pheidio a'i symid Gadael y giât i'r cae chwarae fel y mae o er mwyn i'r garddwyr cael mynediad i'r ardal.</i> <i>Yn olaf, os oes gan y Cyngor stôr o 'shrubs' buasai modd eu defnyddio, mi fuasai hynny yn wych. Rhyw sôn am hyn yn anffurfiol wnaethom ni.</i> <i>Diolch yn fawr am eich help. Mae holl ardal Lan Mor yn mynd i edrych llawer gwell diolch i chi a'ch cyd-weithwyr.</i> <i>Cofion gorau</i> <i>Nerys John</i> <i>Cyngor Cymuned Y Felinheli</i></p>	
11.0	NEUADD GOFFA A CHLOC	
11.1	Gweler yr Atodiad	DW
12.0	GWEFAN	
	Gwaith yn parhau i ddiweddarau'r wefan.	CLERC
13.0	Materion eraill - Mae cais wedi ei dderbyn ynglŷn ag ardal trwyddedu'r byrddau ger y Garddfon. Y Clerc i wneud ymholiadau a'r adran eiddo.	
1.4	Cae Ysgol - dywedodd y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths ei fod wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod diweddar o'r Llywodraethwyr a bod mater o gyflwr y cae chwarae wedi ei godi. Nid oedd yr ysgol yn ymwybodol o'r cwynion. Bydd yr ysgol yn gweithredu ar y mater oherwydd bod y gwaith diweddar wedi ei wneud gyda chymorth Cyngor Gwynedd a bydd y Brif Athrawes yn cysylltu â'r swyddogion hynny. Bydd mater y Cae Ysgol yn cael ei gadw a'r agenda'r Cyngor Cymuned hyd nes bydd y mater wedi ei ddatrys.	CLERC
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 20:45	
Llofnod:		Dyddiad:

Atodiad

Neuadd Goffa

Mae'r Neuadd Goffa Ar gau ar hyn o bryd.

Cynnig

Mae'r Is-Bwyllgor yn cynnig bod y Neuadd Goffa yn cael ei ail agor i ddefnyddwyr ym mis Ionawr cyn belled a bod y rheoliadau llywodraethol yn cyniatau hynny ar yr amser.

Mae'r Is Bwyllgor yn credu y gall y Neuadd gael ei ail agor mewn modd sydd yn lleihau risg oddi wrth COVID-19 i bawb sydd yn ymweld os bydd y nifer o ddigwyddiadau yn cael ei gyfyngu i ddechrau a bod gweithdrefnau priodol yn cael eu rhoi mewn lle.

Bydd yr amserlen yn gyfyngedig i ddechrau gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i blant ifanc.

Bydd yr amserlen yn cael ei ehangu fel y bydd gweithdrefnau yn cael eu profi.

Bydd yr Is-Bwyllgor yn gweithio hefo defnyddwyr i sicrhau bod y defnyddwyr hefo fydd yng ngweithdrefnau'r Cyngor Cymuned a bod y Cyngor Cymuned yn fodlon hefo Asesiadau Risg a Gweithdrefnau'r defnyddwyr.

Bydd yr Is bwyllgor yn gwrthod llogi'r Neuadd i ddefnyddwyr os ydynt yn credu bod gweithgaredd yn methu cydymffurfio a rheoliadau Llywodraethol neu gorff perthnasol.

Mae'r Is bwyllgor wedi dechrau ar y broses yma yn barod gyda'r Guides i sicrhau bod y dogfennau perthnasol mewn lle i fedru ail ddechrau ym mis Ionawr.

Yr Angen

Mae rhai mudiadau wedi gofyn i gael ail ddechrau eu defnydd o'r Neuadd.

Roedd y Guides / Brownies / Rainbows wedi holi am ddychwelyd ond roeddent wedi trefnu gweithgareddau yn wal ddringo'r Beacon ym mis Rhagfyr felly nid ydynt angen ail ddechrau cyn y Nadolig.

Cyflogaeth / Ariannol

Mae'r is bwyllgor yn cydnabod y bydd costau ynghlwm ac ail agor y Neuadd ond mae'r aelodau yn credu yn gryf bod yna werth cymdeithasol hanfodol i ddefnydd y Neuadd gan y pentrefwyr, yn enwedig i blant.

Mae'r ofalwraig ar ffyrlo ar hyn o bryd.

Mae'r ofalwraig yn fodlon iawn i ail ddechrau gweithio.

Cyflog yr ofalwraig yn ôl y cytundeb yw £280 y mis ac mae wedi derbyn y cyflog yma er gwaetha covid.

Drwy system ffyrlo, mae'r Swyddog Ariannol yn hawlio swm o £224 y mis sef 80% o'r cyflog llawn.

Mae'r Cyngor yn talu'r gwahaniaeth o £56 y mis.

Mi fydd hi yn bosib hawlio ad daliad os bydd yr ofalwraig yn gweithio rhan amser.

Credir y bydd angen tua dwy awr o lanhau ar ôl pob defnydd i ddechrau. Mae'n bosib iawn y bydd yr amser yn lleihau fel mae'r lanhawraig yn dod i arfer hefo'r gweithdrefnau Newydd.

Mae'r is bwyllgor yn cydnabod y bydd bron dim incwm o'r Neuadd nes bod partïon plant a phartïon oedolion yn cael ail ddechrau.

Bydd costau of tua £250-00 i baratoi'r Neuadd i fod yn COVID-19 Compliant - Biniau, Didolwyr Diheintydd (Sanitier Dispensers), Arwyddion,

Bydd costau ychwanegol i redeg y neuadd. Diheintydd, Sebon, Tyweli papur, PPE, defnyddiau glanhau.

Dydi hi ddim yn glir ar y funud faint fydd y costau fesul wythnos neu fesul defnydd.

Yswiriant

Mae'r Swyddog Ariannol wedi derbyn cyngor gan ein cwmni yswiriant eu bod yn fodlon i ni ail agor cyn belled ein bod yn cydymffurfio a rheoliadau llywodraethol perthnasol.

Cofeb y Cloc

Guides a Brownies wedi gosod cerrig wedi eu haddurno yn y blwch tywod o flaen cofeb y cloc. Aelodau'r is bwyllgor wedi gosod coeden goleuadau a cheirw ger y gofeb.

Gŵyl y Felin wedi gosod goleuadau ar Neuadd yr Eglwys gan gymryd pŵer o'r neuadd gyda chaniatâd y Tad Dylan.